OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 2037 (Cy. 309)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr M4 (Slipffyrdd rhwng Cyffordd 38 (Margam) a Chyffordd 43 (Llandarsi), Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *10 Rhagfyr 2015* |
| *Yn dod i rym* | *16 Rhagfyr 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) ("y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Rhagfyr 2015 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Slipffyrdd rhwng Cyffordd 38 (Margam) a Chyffordd 43 (Llandarsi), Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 16

Rhagfyr 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r draffordd" *("the lengths of the motorway")* yw'r darnau hynny o draffordd yr M4 rhwng Cyffordd 38 (Margam) a Chyffordd 43 (Llandarsi) ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 18 mis fan hwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 10 Rhagfyr 2015

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S.. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru.

## YR ATODLEN

Y darn cyfan o'r slipffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 38 (Margam).

Y darn cyfan o'r slipffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 38 (Margam).

Y darn cyfan o'r slipffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 38 (Margam).

Y darn cyfan o'r slipffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 39 (Groes).

Y darn cyfan o'r slipffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 40 (Tai-bach).

Y darn cyfan o'r slipffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 40 (Tai-bach).

Y darn cyfan o'r slipffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 40 (Tai-bach).

Y darn cyfan o'r slipffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 40 (Tai-bach).

Y darn cyfan o'r slipffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 41 (Pentyla).

Y darn cyfan o'r slipffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 41 (Pentyla).

Y darn cyfan o'r slipffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 41 (Pentyla).

Y darn cyfan o'r slipffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 41 (Pentyla).

Y darn cyfan o'r slipffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 42 (Earlswood).

Y darn cyfan o'r slipffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 42 (Earlswood).

Y darn cyfan o'r slipffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 42 (Earlswood).

Y darn cyfan o'r slipffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 42 (Earlswood).

Y darn cyfan o'r slipffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 43 (Llandarsi).

Y darn cyfan o'r slipffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 43 (Llandarsi).

Y darn cyfan o'r slipffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 43 (Llandarsi).

Y darn cyfan o'r slipffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 43 (Llandarsi).